Senedd Cymru | Welsh Parliament
**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol** | **Equality and Social Justice Committee**
Ymateb gan: Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru| Evidence from: Welsh Ambulance Services NHS Trust

---

**Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**

**Adolygiad ôl-ddeddfwriaethol o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015**

**Cyflwyno Tystiolaeth: Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru**

**Cyflwyniad**

1. Mae Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (WAST) yn croesawu'r cyfle i ddarparu tystiolaeth i Bwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol y Senedd mewn perthynas â'i adolygiad ôl-ddeddfwriaethol o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

2. Fel y gŵyr y Pwyllgor, roedd WAST yn un o wyth sefydliad newydd i ddod o dan nawdd y Ddeddf ar 30 Mehefin 2024, ac felly, mae yng nhamau cynnar taith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yr Ymddiriedolaeth.

3. Wedi dweud hynny, mae'r Ymddiriedolaeth wedi ymrwymo, drwy fersiynau olynol o'i Chynllun Tymor Canolig Integredig, sef dogfennau cynllunio allweddol sefydliadau GIG Cymru, i weithio o fewn ysbryd y Ddeddf.

4. O ystyried y newydd-deb cymharol hwn i ofynion statudol y Ddeddf, mae'r cyflwyniad tystiolaeth byr hwn yn amlinellu rhai sylwadau mewn perthynas â meysydd ymholi penodol y Pwyllgor, yn enwedig y canlynol:

   - i ba raddau y mae amcan arfaethedig y Ddeddf yn cael ei gyflawni;
   - unrhyw gamau y dylid eu cymryd i wella effeithiolrwydd y Ddeddf a'i gweithrediad, gan gynnwys unrhyw faterion drafftio penodol;
   - a yw'r gofynion adolygu ac adrodd o dan y Ddeddf yn cael eu bodloni;
   - effeithiolrwydd y canllawiau a wnaed o dan y Ddeddf;
   - i ba raddau y mae'r Ddeddf wedi bod yn gyfreithiol rwymol ac yn orfodadwy; ac
   - i ba raddau y mae'r Ddeddf wedi cynrychioli, ac y bydd yn parhau i gynrychioli, gwerth am arian.

5. Fodd bynnag, dylid nodi, o ystyried ei bod hi'n llai na 12 mis ers i'r Ymddiriedolaeth fod yn ddarostyngedig i'r Ddeddf yn ffurfiol, ac nad yw aelodaeth o fyrddau gwasanaethau cyhoeddus wedi'i rhoi i'r Ymddiriedolaeth o ganlyniad (mae WAST yn aelod o fwrdd gwasanaethau cyhoeddus Bro Morgannwg o ganlyniad i berthnasoedd hirsefydlog), bod yr arsylwadau hyn wedi'u llywio gan brofiad WAST o'r dirwedd bartneriaeth yn fwy cyffredinol a'i brofiad o gydweithio.

6. Er mwyn eglurder, cynigir sylwadau o dan y penawdau sy'n berthnasol i feysydd diddordeb penodol y Pwyllgor.

**I ba raddau y mae amcan arfaethedig y Ddeddf yn cael ei gyflawni**

7. Mae'n anodd anghytuno â'r amcan arfaethedig ar gyfer Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, sef sicrhau bod Cymru heddiw, yfory a'r dyfodol yn un lle gall ei phobl ffynnu.

8. Gyda'i ffocws ar y saith nod llesiant a'r angen i gyrff cyhoeddus gydweithio i'w cyflawni, roedd y Ddeddf yn ddarn blaengar o ddeddfwriaeth, y mae ei hegwyddorion wedi'u seilio ar lunio polisïau blaengar a chydnabyddiaeth o'r heriau a wynebir yng Nghymru ôl-ddiwydiannol. Ar y sail honno, nid oes llawer i'w feirniadu yn y ddeddfwriaeth ei hun.

9. Fodd bynnag, ddegawd yn ddiweddarach a chydag effaith economi sydd wedi'i hymylu y tu allan i floc masnachu'r Undeb Ewropeaidd, pandemig sydd wedi cael goblygiadau iechyd, economaidd a chymdeithasol i boblogaeth Cymru a newid yn y ffordd y mae cyrff cyhoeddus yn cael eu hystyried, mae'n amlwg, er gwaethaf y ddeddfwriaeth, fod gan gyrff cyhoeddus frwydr anodd i reoli eu heriau uniongyrchol.

10. Mae'r heriau hyn yn creu tirwedd partneriaeth arbennig o gymhleth, lle gall blaenoriaethau cystadleuol a heriau uniongyrchol drechu meddwl a gweithredu tymor hwy yn aml, er gwaethaf y bwriadau gorau.

**Tirwedd partneriaeth: sylwadau a heriau**

11. Mae'n bwysig nodi ar y dechrau nad yw WAST yn dod o dan nawdd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi arwain at aelodaeth o'r 19 bwrdd gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, un o'r prif gyfryngau cydweithredol i gefnogi cyflawni'r Ddeddf.

12. Fodd bynnag, mae'r Ymddiriedolaeth wedi bod yn rhan o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Bro Morgannwg ers amser maith, canlyniad o berthnasoedd unigol a ddatblygwyd dros nifer o flynyddoedd ac mae hefyd bellach yn aelod o'r saith Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (sy'n gysylltiedig â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014) yng Nghymru.

13. Mae gan yr Ymddiriedolaeth hefyd berthnasoedd datblygedig iawn â'r gwasanaethau brys eraill yng Nghymru ac, fel gwasanaeth a gomisiynwyd gan y saith bwrdd iechyd yng Nghymru drwy Gydbwyllgor Comisiynu GIG Cymru, mae ganddi ymrwymiad cryf i gydweithio a phartneriaeth.

14. Felly, mae'r sylwadau a amlinellir isod yn deillio o'r profiadau hynny ac o'r nifer o bwyntiau cyswllt eraill sydd gan yr Ymddiriedolaeth â sefydliadau ar draws gwasanaeth cyhoeddus Cymru, y trydydd sector a thu hwnt.

15. Un o brif egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ac a amlinellir yn ei phum ffordd o weithio, yw cydweithio. Gall cydweithio fod yn ffactor sy'n sbarduno sicrhau bod cyllid cyhoeddus yn cael ei optimeiddio mewn ffordd sy'n galluogi gwneud penderfyniadau mwy beiddgar i ddiogelu cenedlaethau'r dyfodol a gwireddu nod meddwl tymor hir sy'n llywio camau gweithredu tymor byr a chanolig.

16. Yr hyn sy'n glir ym maes partneriaeth a chydweithio yw bod gan sefydliadau fwriadau da ac wedi ymrwymo i newid ac i gydweithio. Yr her yw cyflawni hyn mewn ffordd ystyrlon pan fo cyllid ac, yn bwysicach fyth, mecanweithiau llywodraethu a fframweithiau rheoli perfformiad yn wahanol.

17. Mae'r dirwedd bartneriaethau yng Nghymru yn gymhleth a braidd yn orlawn. Mae cyfanswm o 10 sefydliad GIG (saith bwrdd iechyd, tair ymddiriedolaeth), 22 awdurdod lleol a nifer o sefydliadau eraill ledled Cymru megis Cyfoeth Naturiol Cymru, yn ogystal â phedwar gwasanaeth heddlu nad ydynt wedi'u datganoli, a thri gwasanaeth tân ac achub sydd, ynghyd â phartneriaethau anstatudol, er enghraifft Cydbwyllgor Canolbarth Cymru ar gyfer Iechyd a Gofal, i gyd i ryw raddau yn ymwneud â gwaith partneriaeth a chydweithio. Mae yna lawer o bartneriaid eraill yn y trydydd sector, tai cymdeithasol a sefydliadau eraill sydd hefyd yn allweddol mewn trefniadau partneriaeth.

18. Daw partneriaid ynghyd, ymhlith mecanweithiau eraill, drwy Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (19) a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol (7), gyda'r olaf yn gyfrwng ar hyn o bryd ar gyfer y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol, sydd i ddod i ben yn 2027.

19. Mewn amgylchedd lle mae cyllid y sector cyhoeddus yn parhau i fod, ac yn debygol o barhau i fod wedi'i gyfyngu, tra bod gofynion a disgwyliadau cymdeithasol yn tyfu, a llawer o anghenion yn rhai brys, mae'r cysyniad o feddwl a chydweithio hirdymor yn un sy'n aml yn anodd i gyrff y sector cyhoeddus ei harneisio'n effeithiol. Mae hwn, yn ogystal â chylchoedd ariannu tymor byr, yn ei wneud yn anodd gweld ymhellach na 12-36 mis o ran gwneud penderfyniadau. Mae hyn, ynddo'i hun, yn aml yn milwrio yn erbyn y tymor hir sydd wrth wraidd y Ddeddf.

20. Mae nifer o agweddau ar bartneriaeth a chydweithio rhwng asiantaethau sy'n aml yn broblematig. Pan fydd cyllid yn gyfyngedig ac o dan bwysau sylweddol, a'r union adeg pan ddylai cydweithio fod yn rhan allweddol o ddatblygu a darparu gwasanaethau, mae sefydliadau'n aml yn tynnu'n ôl ac yn dod yn fwy mewnol.

21. Mae cydweithio nid yn unig yn gofyn am bwrpas neu nod a rennir, ond yn aml mae'n gofyn am ildio rheolaeth dros adnoddau, ariannol, ffisegol neu ddynol. Yn aml, ystyrir bod hyn yn strategaeth risg uwch ar adegau o gyfyngiadau ariannol. Er mwyn cydweithio'n effeithiol, mae'n rhaid bod perthynas gref sy'n seiliedig ar ymddiriedaeth rhwng partneriaid, ac mae hyn yn cymryd amser i'w ddatblygu. Yn aml, mae'n seiliedig ar berthnasoedd unigol, yn hytrach na sefydliadol, a gall hyn ynddo'i hun arwain at doriadau anfwriadol neu oedi cynnydd pan fydd yr unigolion hynny'n symud ymlaen.

22. Yn yr un modd, yn aml mae gorddibyniaeth ar “botiau” cyllido arwahanol, nad ydynt yn rhan o’r grwpiau craidd, er enghraifft y Gronfa Integredig Ranbarthol, a’i rhagflaenydd y Gronfa Gofal Integredig, a weinyddir drwy fyrddau partneriaeth rhanbarthol, i gefnogi modelau gofal cydweithredol a mwy integredig rhwng partneriaid statudol. Y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol

**Unrhyw gamau y dylid eu cymryd i wella effeithiolrwydd y Ddeddf a'i gweithrediad, gan gynnwys unrhyw faterion drafftio penodol**

23. Er bod sylwedd y Ddeddf eisoes yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff perthnasol gydweithio tuag at amcanion hirdymor, efallai y bydd opsiwn i alluogi cydweithio gwell drwy fframweithiau rheoli perfformiad a rennir.

24. Mae dau adroddiad diweddar gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ac Archwilio Cymru yn tynnu sylw'n dda at yr heriau a'r cyfleoedd sydd o'n blaenau, ac maent hefyd yn cyfeirio at y dirwedd bartneriaeth gymharol orlawn ledled Cymru. Mae strwythurau llywodraethu gwahanol iawn ar draws iechyd, gofal cymdeithasol, llywodraeth leol a chyrff cyhoeddus eraill yn golygu bod gwneud penderfyniadau ar sail partneriaeth yn anodd. Byddai fframwaith rheoli perfformiad a rennir gan Lywodraeth Cymru, y byddai cyrff sy'n ddarostyngedig i'r Ddeddf yn cael eu mesur yn weithredol yn ei erbyn o ran eu hamcanion cydweithio, efallai'n canolbwyntio mwy o sylw ar anghenion cyffredin y boblogaeth, yn hytrach na'r ffynhonnell ariannu ar gyfer mentrau.

25. Yn yr un modd, gallai mwy o hyfforddiant ar offer i wella cydweithio ar gyfer Byrddau/Cabinetau ac uwch arweinwyr, er enghraifft y potensial ar gyfer cytundebau adran 33 (trefniadau partneriaeth ffurfiol rhwng cyrff y GIG ac awdurdodau lleol, a alluogwyd yn bennaf gan reoliadau o dan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006) i alluogi mwy o gydweithio, leihau rhywfaint o'r pryder sy'n gysylltiedig â gwneud penderfyniadau, atebolrwydd a llifau ariannol ar y cyd.

**Pu’n a yw'r gofynion adolygu ac adrodd o dan y Ddeddf yn cael eu bodloni**

26. Mae'n anodd i Wasanaeth Ambiwlans Cymru wneud sylwadau ar yr agwedd hon, gan mai 2025/26 fydd y flwyddyn gyntaf lle bydd yn destun gofynion adrodd o dan y Ddeddf. Mae'r sefydliad yn parhau i fod wedi ymrwymo i gydymffurfio â'i rwymedigaethau yn hyn o beth.

**Effeithiolrwydd canllawiau a wnaed o dan y Ddeddf**

27. O ran Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru fel sefydliad newydd i ddod o dan nawdd y Ddeddf lai na blwyddyn yn ôl, mae'r canllawiau diweddaraf ar gyfer 2024 wedi bod yn ddefnyddiol.

28. Yr hyn sy'n amlwg yw, yn ystod y degawd y mae'r Ddeddf wedi bod ar waith, bod cynnydd gwirioneddol yn parhau i fod yn heriol, am yr holl resymau a amlinellwyd yn gynharach yn y cyflwyniad hwn. Y cwestiwn yn awr yw a yw canllawiau'n trosi'n gamau gorfodol, neu a fyddai hyn yn gam rhy bell, o ystyried yr ystod o dargedau y mae cyrff cyhoeddus yng Nghymru eisoes yn ddarostyngedig iddynt.

**I ba raddau y mae'r Ddeddf wedi bod yn gyfreithiol rwymol ac yn orfodadwy**

29. Yn unol â phwyntiau a wnaed yn flaenorol yn y cyflwyniad hwn, er ei bod yn parhau i fod yn anodd herio rhesymeg ac uchelgais y Ddeddf, fe'i datblygwyd ar adeg o fwy o sefydlogrwydd a heb y sioc gymdeithasol, economaidd ac iechyd a brofwyd ers hynny.

30. Nid yw'r materion hyn yn negyddu dilysrwydd y Ddeddf, ac nid ydynt yn golygu y dylid diddymu'r Ddeddf. Fodd bynnag, yr hyn sy'n amlwg yw ei bod hi'n anodd rhoi pwysau ar gyrff cyhoeddus i gydymffurfio â'r Ddeddf pan fyddant yn wynebu llu o heriau uniongyrchol sy'n defnyddio'r rhan fwyaf o'u gweithgaredd.

**I ba raddau y mae'r Ddeddf wedi cynrychioli, a bydd yn parhau i gynrychioli, gwerth am arian**

31. O ystyried nad oes unrhyw ffrydiau ariannu ar gyfer cyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig â'r Ddeddf, a bod cyllid ar gyfer Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a'i dîm yn gymharol gyfyngedig o fewn cwmpas cyllidebau Llywodraeth Cymru, mae costau gweithredu'r Ddeddf yn gymedrol. Fel Ymddiriedolaeth, nid oes unrhyw aelodau o staff yn cael eu cyflogi'n benodol i weithredu'r Ddeddf, ac mae'n debygol y bydd hyn yn debyg ar draws cyrff cyhoeddus. Gellir dadlau bod hyn yn gryfder ac yn wendid, gan fod y gallu i gyflawni yn aml yn cael ei grybwyll fel cyfyngiad.

32. Mae'r Ddeddf yn ddarn unigryw o ddeddfwriaeth sydd wedi cael ei edmygu'n eang ym mhedwar ban y byd. Mae ganddo werth cymdeithasol cynhenid, sy'n anodd ei werthuso ar sail gwerth am arian.

**Gwasanaeth Ambiwlans Cymru: taith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**

33. Mae Gwasanaeth Ambiwlans Cymru wedi cyhoeddi ei amcanion llesiant yn ddiweddar, y gellir eu gweld yma. Eleni, bydd yr Ymddiriedolaeth yn canolbwyntio ar ymgorffori'r amcanion hyn fel fframwaith gyfeirio ar gyfer ei phrosesau gwneud penderfyniadau. Mae Bwrdd yr Ymddiriedolaeth wedi ymrwymo i'r broses hon, a bydd yn bwysig parhau i ganolbwyntio pan all argyfyngau tymor byr drechu nodau tymor hwy yn aml.

34. Mae gorwel hirdymor yr Ymddiriedolaeth eisoes wedi'i adlewyrchu yn symudiad y sefydliad tuag at fodel wedi'i ddiweddaru o ddarparu gwasanaethau clinigol, wedi'i gynllunio i sicrhau ei fod yn addas ar gyfer y tymor hir, yn diwallu anghenion pobl Cymru ac yn cael ei ddarparu ar y cyd â system ehangach GIG Cymru a phartneriaid eraill. Yn yr un modd, bydd yr Ymddiriedolaeth yn edrych ar ei dull o gynllunio ar gyfer ymaddasu, gan archwilio sut, fel corff statudol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, y mae'n ymateb i heriau hysbys, ee. newid hinsawdd. Bydd yr Ymddiriedolaeth yn gwerthuso ei sefyllfa bresennol yn erbyn matrics aeddfedrwydd er mwyn deall yn well y gwaith y bydd angen iddi ei wneud i weithio'n llawn yn ysbryd y Ddeddf, ac i gydymffurfio â hi.

**Sylwadau i gloi**

35. Gobeithir y bydd y dystiolaeth hon yn ddefnyddiol i'r Pwyllgor ac mae'r Ymddiriedolaeth yn edrych ymlaen at dderbyn canlyniad adolygiad y Pwyllgor maes o law.

Diwedd/EVH/Mehefin25